

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd brynhawn Iau 18 Gorffennaf, 2017 am 2.00 ym Mhencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cabinet oedd yn bresennol:-

A Morgan M Webber M Norris
R Bevan R Lewis A Crimmings G Hopkins
J. Rosser C. Leyshon

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol:-

J Bonetto S Bradwick S Rees-Owen M Weaver

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr.C.B.Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr C Hanagan – Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus (Ysgrifennydd i'r Cabinet)

Mr C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr G Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Ms E. Thomas – Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mr T. Wilkins – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr N Jones – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyllid Gweithrediadol

Ms A Batley – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant

Ms Z Lancelott – Pennaeth Materion Ymgysylltu a Chyfranogiad

Mr P Griffiths – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cyflawni a Gwella

Mr N Jones – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyllid Gweithrediadol

Ms D Hanney – Swyddog Datblygu Asedau Cymunedol

Ms H Reid – Rheolwr Eiddo

Ms A Richards – Pennaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

8. DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

9. COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin, 2017, yn rhai cywir.

10. Adran 3A – Cynllun yr Arweinydd ar gyfer Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol 2017/18

Derbyn adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau o'r Cabinet am Gynllun yr Arweinydd ar gyfer Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol yn y flwyddyn i ddod, yn dilyn etholiadau lleol a Chyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor 2017.

Cyfeiriodd y swyddog yr Aelodau o'r Cabinet at y cyswllt yn yr adroddiad, gan esbonio ei bod hi'n arfer da i gyflwyno Cynllun yr Arweinydd ar gyfer Dirprwyo Swyddogaethau Gweithredol, er nad oedd hi'n ofyniad ffurfiol i wneud hynny.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi cynnwys [Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd](#)
- b) Nodi bod hawl gan Arweinydd y Cyngor i newid y Cynllun Dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol unrhyw bryd yn y flwyddyn; a bod diweddariad o adran 3A yn cael ei gyflwyno i Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Cabinet.

**11. RHAGLEN TEULUOEDD CYDNERTH RHONDDA CYNON TAF:
GWASANAETHAU INTEGREDIG MATERION ATAL AC YMYRRAETH
GYNNAR A CHYMORTH I DEULUOEDD YN RHONDDA CYNON TAF**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant a'r Pennaeth Materion Ymgysylltu a Chyfranogiad gyflwyniad (wedi'i atodi) i'r Cabinet ynglŷn â'r manteision o ddatblygu Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, mewn ymgynghoriad â phartneriaid allweddol i gyflwyno model Carfan o amgylch y Teulu (TAF) a fyddai'n galluogi'r Cyngor i ymateb i anghenion teuluoedd mewn modd diymdroi ac effeithiol.

I ddechrau, rhoddodd y swyddogion wybodaeth gefndir am y ddarpariaeth bresennol. Esboniwyd i'r Cyngor wario cyfanswm o £82.1 miliwn yn y flwyddyn ariannol 2015-16 i ddiwallu anghenion plant unigol, gyda data yn dangos lefel gynyddol o anghenion wedi'u pennu, gyda'r niferoedd o blant a phobl ifainc

sydd angen ymyrraeth statudol yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Ychwanegwyd bod y gwariant sydd ei angen i ddiwallu'r angen hefyd ar gynydd er gwaethaf y pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

Amlinellodd y swyddogion gyfle i sefydlu Rhaglen Teuluoedd Cydnerth fel un dull trosfwaol a fyddai'n llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn ogystal â llywio'r gwaith o weithredu polisi cenedlaethol yn RhCT mewn perthynas â rhoi cymorth i deuluoedd.

Esboniwyd nad oedd y ddarpariaeth yn cael ei chydlynu'n effeithiol oherwydd diffyg un dull o fynd ati, a hynny er gwaetha'r ffaith fod RhCT, trwy gyfrwng gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector, yn cynnal ystod eang o ymyriadau i roi cymorth i deuluoedd.

Cafodd Aelodau o'r Cabinet wybod mai'r dull presennol o fynd ati i ddarparu gwasanaethau yw i ddarparwyr unigol i fynd i'r afael â materion penodol sy'n wynebu aelodau unigol o'r teulu yn hytrach na chydabod y problemau lliaws sydd i'w cael yn y teulu a'r effaith mae'r cymhlethdod yma'n ei chael ar fywyd teuluol.

Cynigiodd y swyddog y Rhaglen Teuluoedd Cydnerth, gan esbonio y byddai'r delfryd: *'I gael dull aml-asiantaeth o weithredu yn Rhondda Cynon Taf sy'n llywio'r gwaith integredig o ddarparu cymorth priodol, amserol, ymarferol ac effeithiol i deuluoedd sy'n wynebu problemau amrywiol a/neu gymhleth er mwyn lleihau nifer y teuluoedd a fyddai angen ymyrraeth statudol gan y Gwasanaethau i Blant yn y dyfodol'*.

Esboniwyd yr amcanion canlynol ar gyfer y rhaglen:

- Lleihau nifer y teuluoedd sydd angen ymyrraeth statudol
- Gostwng nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
- Lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal

Cyfeiriodd y swyddog at ran o'r cyflwyniad a oedd yn nodi amserlenni ar gyfer camau cyfeirio, asesu, ymyrraeth ac adolygu'r ddarpariaeth Carfan o amgylch y Teulu (TAF). Esboniodd y swyddog y byddai'r broses yn aildechrau petai problem newydd yn cael ei nodi ac y byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar uned y teulu. Yna, aeth y swyddog ati i gymharu amserlenni â'r rhai a nodwyd yng nghynnig y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Dangosodd y canlyniadau y gallai'r broses gael ei haneru er lles y teuluoedd.

Cyflwynwyd Astudiaeth Achos i Aelodau o'r Cabinet ynghyd â throsiad 'wal frics' er mwyn gwella dealltwriaeth ynghylch y problemau niferous sy'n wynebu teuluoedd unigol. Esboniodd y swyddog y byddai angen mabwysiadu dull gweithredu 'teulu cyfan' er mwyn sicrhau ymyrraeth gynnar effeithiol a

gwella cadernid strwythurol y 'wal gyfan' (problem ehangach), drwy ddeall y berthynas rhwng y brics (problemau bychain).

Cafodd Aelodau eu cyfeirio at adran 9 yn yr adroddiad lle amlinellwyd y Fframwaith Cymorth Integredig i Deuluoedd. Esboniodd y swyddog am y gwaith sy'n cael ei wneud i sefydlu a gweithredu Fframwaith Cymorth Integredig i Deuluoedd i gydlynu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar arbenigol, effeithiol, ac i ddarparu cymorth integredig ar gyfer teuluoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant y byddai'r rhaglen newydd yn gweithredu un dull trosfwaol tuag at reoli darpariaeth y gwasanaethau, yn ogystal â chreu cyfle arloesol a fyddai'n sicrhau deilliannau gwell i bobl ifainc, ac yn gwneud y mwyaf o'u cyfleoedd addysg.

Rhoddodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl ifainc ganmoliaeth i'r swyddogion ar eu hadroddiad. Nododd ei fod yn braf gweld y byddai'r dull newydd arfaethedig yn lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal gan ganolbwyntio ar gryfder y teulu cyfan, yn hytrach na'r unigolyn.

Cytunodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion y Gwasanaethau Cymuned a'r gwasanaethau i Oedolion a Phlant a gofynnodd sut byddai cyflawniad yn cael ei fonitro. Esboniodd y swyddog y byddai system rheoli gwybodaeth yn bodloni'r meini prawf grantiau ac yn monitro'r effaith ar deuluoedd.

Yn dilyn rhagor o drafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Trafod canfyddiadau adolygiad Carfan o amgylch y Teulu (TAF) ynghyd â chasgliadau'r Prosiect Proffilio Bregusrwydd a'r Gwasanaethau i Blant fel y nodwyd yn adran 6 a 7 o'r adroddiad.
- b) Cytuno i ddatblygu'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth drwy ymgynghori â phartneriaid allweddol i ddarparu model Carfan o amgylch y Teulu (TAF) gwell sy'n ein galluogi ni i ymateb i anghenion teuluoedd yn gyflym ac yn effeithiol.
- c) Derbyn adroddiad arall ynghylch opsiynau i'w hystyried a model darpariaeth argymhelledig ar gyfer y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth ym mis Medi 2017.
- d) Cytuno mai Rhaglen Teuluoedd Cydnerth fydd y rhaglen gyffredinol sy'n siapio sut y caiff polisïau cymorth i deuluoedd cenedlaethol eu gweithredu yn RhCT.

12. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 31 MAWRTH 2017 (DIWEDD BLWYDDYN)

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyflawni a Gwella, sy'n rhoi arolwg i'r Aelodau ar gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

Cafodd Aelodau o'r Cabinet eu cyfeirio at Atodiad 1 o'r adroddiad, a oedd yn cynnwys gwybodaeth fwy manwl ynglŷn â phob Maes Gwasanaeth a'i gyflawniad.

Rhoddodd y swyddog grynodedb o bob un o flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol - Economi, Lleoedd a Phobl a sôn am y cynnydd cadarnhaol. Dywedodd y swyddog fod yr adroddiad yn dangos canlyniadau ariannol a gweithredol cadarn ar gyfer 2016/17 a oedd yn gyson â'r diweddariadau chwarterol yn ystod y flwyddyn.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r swyddog am yr adroddiad, gan nodi ei bod hi'n braf clywed bod y Cyngor yn parhau i fuddsoddi er gwaethaf caledi ariannol. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod hi wedi cwrdd â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol er mwyn mynd i'r afael ag absenoliaeth o fewn y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol fod cynnwys yr adroddiad yn addawol a bod y fformat yn eglur ac yn cynnig cyfle i bobl ymchwilio ymhellach i wybodaeth, heb orlenwi'r adroddiad. Awgrymodd yr Aelod o'r Cabinet y dylid cyflwyno dangosyddion cyflawniad y Cyngor i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer trafodaeth bellach. Cytunodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet i ysgrifennu cais i'r Cadeirydd ynglŷn â chynnwys y mater hwn yn rhan o raglen waith y dyfodol.

Yn dilyn rhagor o drafod, **PENDERFYNWYD:**

Refeniw

- a) Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel y mae ar 31 Mawrth 2017 (Adran 2 o'r Crynodeb Gweithredol).

Cyfalaf

- b) Nodi sefyllfa alldro cyfalaf y Cyngor fel y mae ar 31 Mawrth 2017 (Adrannau 3a-f o'r Crynodeb Gweithredol).
- c) Nodi manylion y Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel y mae ar 31 Mawrth 2017 (Adran 3g o'r Crynodeb Gweithredol).

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

- d) Nodi'r cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol cytûn (Adrannau 5a - d o grynodedb y Crynodeb Gweithredol).
- e) Y byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

13. ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL Y CYNGOR (DRAFFT)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ar faterion Cyflawniad a Gwelliant adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor i Aelodau o'r Cabinet. Roedd yr

adroddiad yn cynnwys manylion cynnydd ar gyfer 2016/17 a chynlluniau ar gyfer 2017/18 o ran tair prif flaenoriaeth strategol y Cyngor.

Soniodd y Swyddog am dair blaenoriaeth strategol y Cyngor ar gyfer 2016-2020 a gytunwyd arnynt ym mis Chwefror 2016 ac sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Corfforaethol, ['Y Ffordd Ymlaen'](#).

- Economi – Adeiladu Economi Gref
- Pobl – Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb; a
- Lleoedd – Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw

Esboniodd y Swyddog fod 'Y Ffordd Ymlaen' yn pennu cyfeiriad clir i'r Cyngor a bod pob aelod o staff a Rheolwyr yn ei ddilyn drwy eu Cynlluniau Darparu Gwasanaeth. Nodwyd bod cynnydd y blaenoriaethau hyn wedi cael ei gynnwys yn rhan o adroddiadau chwarterol y Cyngor.

Cafodd Aelodau o'r Cabinet eu cyfeirio at Atodiad 1 o'r adroddiad lle cafodd yr Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol 2017/18 ei amlinellu. Esboniwyd bod yr adroddiad drafft wedi cael ei herio gan swyddogion a'i fod wedi'i strwythuro o amgylch Blaenoriaethau'r Cyngor o ran 'Economi', 'Pobl' a 'Lleoedd'.

Esboniodd y Swyddog y byddai adborth y Cabinet yn cael ei gyflwyno ar lafar yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor llawn ar 19 Gorffennaf 2017. Byddai'r Cyngor yn ystyried y wybodaeth yma yn rhan o'i drafodaethau. Yn dilyn cymeradwyo'r adroddiad, bydd yr Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol yn cael ei roi i wefan y Cyngor ac yn cael ei anfon at bartneriaid a rhanddeiliaid.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad. **PENDERFYNWYD:**

- a) Cymeradwyo drafft yr 'Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol 2017/18' ac argymhell i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo ar 19 Gorffennaf 2017. Bydd yr adroddiad felly'n cael ei eithrio o'r cyfnod 'Galw-i-Mewn'.

14. COSTAU GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION 2017/18

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant adroddiad i'r Cabinet ynglŷn â newidiadau Llywodraeth Cymru i'r rheolau ynghylch costau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a nodwyd yn Rhan 4 a 5 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sy'n weithredol o 10 Ebrill 2017.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn ystod Rhagfyr 2016 a Ionawr 2017 ynghylch nifer y newidiadau arfaethedig i gostau Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Yn dilyn yr ymgynghoriad, nodwyd y dylid gweithredu'r newidiadau canlynol i gostau gofal cymdeithasol i oedolion, a'u gweithredu o 10 Ebrill 2017:

- (a) Byddai cyfanswm yr arian y mae hawl i bobl ei gadw heb orfod ei ddefnyddio i dalu am ofal cymdeithasol preswyl yn cynyddu o £24,000 i £30,000.
- (b) Bydd asesiadau ariannol o ran costau gofal a chymorth yn diystyru'r Pensiwn Anabledd Rhyfel.
- (c) Byddai'r lleiafswm y mae hawl i berson sy'n derbyn gofal cymdeithasol preswyl ei gadw ar gyfer ei ddefnydd personol, yn cynyddu o £26.50 i £27.50 yr wythnos.
- (d) Bydd yr uchfswm tâl am ofal di-breswyl yn codi i £70 yr wythnos.

Cafodd Aelodau o'r Cabinet eu cyfeirio at adran 4 o'r adroddiad. Amlinellwyd y ddarpariaeth gyfredol o ran costau yn ôl yr awr ac yn ôl wythnos.

Nododd y Swyddog er mwyn ailasesu amgylchiadau ariannol pob defnyddiwr gwasanaeth yn briodol ac yn unol ag asesiadau y gwasanaethau gofal di-breswyl, y cynnig yw cynyddu'r uchafswm gofal a chymorth di-breswyl o £60 i £70, gan weithredu o 1 Hydref 2017.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion, ac i Blant i swyddogion am yr adroddiad gan nodi ei foddhad o ganlyniadau'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y cynnydd yn yr arian y mae hawl i bobl ei gadw a'r trefniadau i ddiystyru'r Pensiwn Anabledd Rhyfel mewn ffordd gadarnhaol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi newidiadau Llywodraeth Cymru i'r rheolau ynghylch costau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, yn weithredol o 10 Ebrill 2017.
- b) Dim cynnydd i gost gofal di-breswyl yn ôl yr awr i bobl sy'n derbyn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion.
- c) Cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchafswm tâl yn ôl yr awr am wasanaethau gofal di-breswyl i £70 yr wythnos yn unol â'r terfyn newydd a benderfynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 17/18, gyda'r uchafswm tâl yn dod i rym ar 1 Hydref 2017.
- d) Cymeradwyo trosglwyddo'r incwm ychwanegol ar gyfer 2017/18 a ddaw yn sgîl hyn i'r Gronfa Cynllunio Ariannol a Thrawsnewid Gwasanaethau Wrth Gefn Tymor Canolig (cyllid pontio).
- e) Cymeradwyo gweithredu unrhyw gynnydd blwyddyn yn y dyfodol i'r uchafswm tâl am wasanaethau gofal di-breswyl yn unol ag unrhyw newidiadau blwyddyn yng nghyfarwyddyd Llywodraeth Cymru
- f) Cychwyn ymgynghoriad ar dynnu'r diystyriadau dewisol ychwanegol sydd i'w cael ar hyn o bryd mewn perthynas â Gwariant sy'n ymwneud ag Anabledd yn ôl o'r 1^{af} Ebrill 2018
- g) Derbyn adroddiad ychwanegol sy'n nodi'r canlyniadau a'r adborth yn dilyn y broses ymgynghori (gan gynnwys canlyniadau Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb a gafodd eu cynnal) er mwyn penderfynu a ydy'r Cabinet eisiau bwrw ymlaen â'r cynigion (2.6), ac os felly, sut mae mynd ati.

15. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016/17

Yn unol â chyfarwyddyd statudol, cyfeiriodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Aelodau at ei adroddiad blynyddol (drafft) sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch materion cynnal, cyflawniad, risgiau a'r gwelliannau sydd yn yr arfaeth mewn perthynas â Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.

Yn unol â gofynion statudol, cafodd Aelodau o'r Cabinet wybod y bu raid ymgynghori ar yr adroddiad yn ei fersiwn drafft - i gynnwys staff, defnyddwyr y gwasanaeth a chynhalwyr (gofalwyr), asiantaethau partner, partneriaethau a'r pwyllgorau craffu sy'n trafod materion Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, byddai adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Dywedodd y swyddog fod yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2016/17, yn gyffredinol, yn gadarnhaol, ac mae'n cynnwys y manylion ynglŷn â'r graddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r gofynion perthnasol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dywedodd y swyddog, hefyd, fod gan y Cyngor weithlu ymroddgar, ac wrth edrych tua'r dyfodol, rhaid i'r agenda atal fod yn seiliedig ar aml-asiantaethau.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant fod her enfawr o flaen y sector gofal cymdeithasol yn genedlaethol, ond bod y Cyngor yn ymroddedig i drawsnewid y sector ac i gyflawni deilliannau ar gyfer Cwm Taf. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y boblogaeth oedrannus, gan bwysleisio'r angen i drigolion, boed ag anableddau neu beidio, i fyw bywyd annibynnol yn eu cartrefi'u hunain am gyhyd ag y bo modd, yn ogystal â'r angen am gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch materion iechyd y meddwl.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd y cyfle i dalu teyrnged i'r cynhalwyr yn y gymuned a'u gwaith pwysig hwythau o ran gofalu bod trigolion yn cael y gofal proffesiynol a phersonol y maen nhw'n ei haeddu.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi adroddiad blynyddol (drafft) Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf.
- b) Nodi y caiff yr adroddiad terfynol ei gyflwyno i'r Cabinet ar ôl i'r pwyllgorau craffu perthnasol ei drafod, a'r broses ymgynghori ehangach.

16. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNHALWYR/GOFALWYR CWM TAF 2016/17

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, Adroddiad Blynyddol Gofalwyr/Cynhalwyr Cwm Taf 2016/17 i Aelodau o'r Cabinet i roi sêl bendith i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2016/17 ar faterion Cynhalwyr i Lywodraeth Cymru. Esboniodd y swyddog i'r Byrddau Iechyd Prifysgol gael rhan arweiniol, o dan Fesur Gofalwyr Llywodraeth Cymru, i weithio gyda phartneriaid i gyflwyno adroddiad

blynyddol sy'n rhoi gorolwg ar y gweithgareddau a gafodd eu cynnal yn rhan o'r Mesur Gofalwyr a gafodd ei weithredu'n flaenorol. Esboniwyd bod rhaid cyflwyno adroddiad o hyd, er i'r Mesur gofalwyr gael ei ddi-ddymu.

Diolchodd y swyddog i gydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd am baratoi'r adroddiad.

Esboniodd e fod yr Adroddiad Blynyddol yn gyfle i edrych yn ôl ar y cynnydd hyd yn hyn, ac i edrych ar yr heriau a chyfleoedd yn 2017/18.

Cafodd Aelodau o'r Cabinet eu cyfeirio at adran 4.5 yn yr adroddiad, lle mae prif feysydd o waith yn cael sylw:

- Parhau â denu a bod yn gefn i dros 400 o Hyrwyddwyr Cynhalwyr trwy'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r trydydd sector, gan sicrhau bod ymwybyddiaeth ynghylch rhoi gofal yn ymgorffori yn yr adrannau a sefydliadau amrywiol;
- Darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cynhalwyr (trwy ddulliau e-ddysgu a wyneb-i-wyneb) i wella gwybodaeth hyrwyddwyr cynhalwyr a staff trwy ardal Cwm Taf;
- Rhannu'r arfer orau yng nghynhadledd blynyddol Hyrwyddwyr Cynhalwyr a gynhaliwyd ym Mai 2017 i gyd-fynd ag Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia;
- Ymgysylltu â Chynhalwyr i lywio'r gwaith o baratoi'r Aseiad Poblogaeth ar gyfer Cynhalwyr fel sy'n ofynnol o dan Ran 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant;
- Cyflwyno Strategaeth Cynhalwyr/Gofalwyr Cwm Taf newydd a'r Cynllun Gweithredu blynyddol cysylltiedig;
- Sefydlu Grŵp Partneriaeth Cwm Taf ar gyfer gweithredu'r Strategaeth; gan adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a;
- Cynhyrchu DVD sy'n cynnwys Cynhalwyr i gynyddu ymwybyddiaeth a'i ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant.

Esboniwyd nad oedd goblygiadau ariannol uniongyrchol mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad, gan fod Partneriaeth Cynhalwyr/Gofalwyr Cwm Taf yn gyfrifol am y defnydd o gyllid pontio.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion ac i Blant i'r cynhalwyr, gan ddweud bod angen darparu cymorth a chefnogaeth iddyn nhw. Canmolodd yr Aelod o'r Cabinet y Strategaeth Ranbarthol, gan ychwanegu ei fod yn edrych ymlaen at weld y cynllun gwaith.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad a bod yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn cael ei gyflwyno gerbron Cabinet Cyngor Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

- b) Nodi bod yr Adroddiad Blynyddol i fod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd Mehefin 2017. Serch hynny, ac yn unol â'r arfer flaenorol sydd wedi bod yn dderbyniol o safbwynt Llywodraeth Cymru, ac oherwydd nad yw amserlenni cyfarfodydd Cabinet y Cynghorau (RhCT a Merthyr Tudful) na Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cyd-ddigwydd, fod adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno, a chaiff fersiwn terfynol ei anfon i Lywodraeth Cymru yn dilyn sêl bendith y tri phartner.
- c) Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol fel sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- d) Nodi bod y gwaith mewn perthynas â chynhalwyr yn mynd yn ei flaen yn rhan o'r Cynllun Rhanbarthol ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn arbennig trwy weithredu Strategaeth Cynhalwyr/Gofalwyr Cwm Taf 2016-19 a gafodd ei chymeradwyo gan bartneriaid ym mis Gorffennaf 2016.

17. CYNIG GAN YR ELUSEN, AGE CONNECTS MORGANNWG, AR GYFER CAIS I'R GRONFA LOTERI FAWR AM AILDDATBLYGU CANOLFAN ORIAU DYDD Y SANTES FAIR, ABERDÂR, A'I THROSGLWYDDO DRWY'R BROSES TROSGLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr amserlen o ran cyllido a'r broses trosglwyddo asedau cymunedol ar gyfer yr elusen, Age Connects Morgannwg, ynghyd â thrafodaethau'r maes gwasanaeth ar gyfer penderfynu prydles 99 o flynyddoedd a'r posibilrwydd o adleoli'r ddarpariaeth Pryd-ar-glud.

Dywedodd y swyddog fod cyfle i'r cyfle i wella ei ddarpariaeth bresennol yng Nghanolfan Oriau Dydd y Santes Fair trwy weithio mewn partneriaeth â'r elusen Age Connects Morgannwg, ac i roi modd i'r elusen i adnewyddu'r cyfleusterau a'u gwella ar gyfer y gymuned leol, am bris bychan i'r Cyngor.

Cafodd Aelodau eu cyfeirio ar adran 5 yn yr adroddiad lle roedd yr wybodaeth am y cynnig. Esboniwyd bod yr elusen yn bwriadu datblygu canolfan/hyb i'r gymuned ar gyfer pob cenhedlaeth ynghyd â chynnal y gwasanaethau presennol. Esboniwyd y byddai'r elusen yn cyflwyno'i chais Cam 2 am £1.1m i Gronfa CAT 2 y Loteri Fawr erbyn 26 Medi 2017, gyda phenderfyniad i'w ddisgwyl erbyn 7 Chwefror 2018, ac os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd y prosiect yn cychwyn erbyn Mehefin / Awst 2018.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod hi'n gyfle, er gwaethaf goblygiadau posibl, i wella'r ddarpariaeth bresennol er budd y gymuned leol, heb oblygiadau ariannol sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd am y gair 'intergenerational', gan ddweud ei bod hi'n gyfle i ddod â'r gymuned ynghyd, ac i hyrwyddo'r cyfleusterau gwell.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion ac i Blant yn fodlon ar yr argymhellion yn yr adroddiad, gan ychwanegu'u bod nhw'n gweddu agenda foderneiddio'r Cyngor. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet bod Rhaglen RhCT gyda'i gilydd yn fodd rhagorol ar gyfer darparu gwasanaethau cymuned gwell trwy waith partneriaeth gyda sefydliadau'r trydydd sector.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol mai'r ffordd ymlaen yw'r bartneriaeth er budd cymunedau lleol.

Dywedodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant fod y cynnig yn gyfle ardderchog i RhCT, sy'n cynrychioli delfryd ar gyfer y dyfodol. Ychwanegodd yr Aelod ei bod hi'n dda gweld y Gronfa Alluogi Cymunedol sy'n cyfrannu ar brosiectau ardderchog yn RhCT.

Dywedodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet wrth Aelodau - o gymeradwyo'r argymhellion - fod y Maer wedi rhoi caniatâd i eithrio'r adroddiad o'r cyfnod 'galw-i-mewn' i sicrhau y gallai'r elusen ymgynghori'n briodol mewn da bryd.

PENDERFYNWYD:

- a) Awdurdodi Age Connects Morgannwg i ymgymryd â'r ymgynghoriad angenrheidiol a datblygu'r cynnig i'r Loteri Fawr i ddatblygu canolfan i'r gymuned ar gyfer pob cenhedlaeth yng Nghanolfan Oriau Dydd y Santes Fair;
- b) Bod adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym Medi 2017 unwaith i'r ymgynghoriad ddod i ben a bod cais am gyllid gan yr elusen wedi'i gwblhau.
- c) Yng nghyfarfod y Cabinet ym Medi 2017, trafod p'un ai rhoi prydles 99 o flynyddoedd ar gyfer Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair i Age Connects Morgannwg, yn amodol ar ganiatáu'r cais am Gyllid y Loteri Fawr.

18. DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT 2017 – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes, Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 (drafft) Rhondda Cynon Taf ar gyfer trafod.

Soniodd y swyddog wrth Aelodau fod dyletswydd statudol ar y Cyngor i gynnal Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal PLant i archwilio'r galw ac argaeledd y ddarpariaeth. Cafodd Aelodau o'r Cabinet eu cyfeirio ar Atodiad 1 yn yr adroddiad lle roedd yr asesiad 2017 drafft. Soniwyd bod ymgynghoriad wedi'i gynnal, gan gynnwys holiaduron a sylwadau awdurdodau lleol cyfagos, Sefydliadau Ymbarel Gofal Plant, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Gwasanaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd, Canolfannau Byd Gwaith, Ysgolion, a Phlant.

Roedd Aelodau'n hapus i nodi bod Rhondda Cynon Taf yn parhau i fod mewn sefyllfa dda o ran ei ddarpariaeth gofal plant bresennol er mwyn diwallu anghenion presennol y rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio, a bod y gwaith datblygu yn parhau mewn ymateb i alw o du rhieni ac mewn ardaloedd lle bod angen wedi'i bennu.

Cyfeiriodd y swyddog at adran 5.8 yn yr adroddiad ynglŷn â blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, yn dilyn ymgynghori â rhieni a chynnig Llywodraeth Cymru i gynnal addysg/gofal plant 30 awr. Esboniodd y swyddog fod y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn pwysleisio amcanion y Cyngor i wella ansawdd y ddarpariaeth bresennol yn ogystal â nifer y lleoedd a byddai gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn mynd i'r afael â'r materion hynny sydd wedi dod i'r amlwg.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes i'r swyddog am yr adroddiad, gan ddweud ei bod hi'n dda nodi bod y blaenoriaethau'n paru â'r ymatebion yn dilyn yr ymgynghoriad.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet hefyd y newid gan Lywodraeth Cymru, sef ei bod hi'n ofynnol bellach i Awdurdodau Lleol i gyflwyno Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant bob pum mlynedd, yn hytrach na phob 3 blynedd.

Yn dilyn rhagor o drafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Cymeradwyo adroddiad ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar gyfer 2017.

19. CYNLLUN PEILOT CYNNIG GOFAL PLANT LLYWODRAETH CYMRU – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd o ran gweithredu cynllun peilot Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer plant cymwys 3 oed a 4 oed yn Rhondda Cynon Taf.

Dywedodd y swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant am ddim ar gyfer rhieni sy'n gweithio y mae'u plant yn 3 a 4 oed, am 48 o wythnosau, ac mai RhCT yw un o'r saith awdurdod lleol yng Nghymru i gael ei ddewis i weithredu'r cynllun peilot.

Esboniodd y swyddog fod y cynnig yn gymhleth a bod llawer o agweddau o hyd i gytuno arny'n nhw, ond gyda'r sicrwydd bod RhCT yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn nhermau swyddogion yn mynychu cyfarfodydd misol i drafod trefniadau.

Cafodd Aelodau eu cyfeirio at adran 4 yn yr adroddiad lle roedd gwybodaeth am yr hynt hyd yn hyn. Nodwyd bod grŵp peilot wedi'i sefydlu i weithredu'r cynllun arbrofol, cyfarfodydd ymgysylltu a chyfarfodydd penaethiaid wedi'u cynnal a bod rhestr wirio cymhwysedd ar-lein ar gyfer rhieni a ffurflen gais ar-lein wedi'u datblygu. Dywedodd y swyddog fod, hyd heddiw, fod 45 o geisiadau wedi dod i law yn RhCT sy ychydig yn llai nag amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf.

Roedd Aelodau o'r Cabinet yn cydnabod bod y cynnig yn gymhleth a diolchodd swyddogion am eu gwaith ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes yn falch o gael nodi bod croeso wedi'i roi i nifer o'r achlysuron ymgysylltu.

Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion ac i Blant am y nifer o geisiadau a ddaeth i law yn yr ardaloedd eraill sy'n cynnal y peilot ar draws Cymru, gan ofyn a oedd unrhyw gydbertynas â'r sefyllfa yn RhCT. Dywedodd yr Uwch Reolwr Prosiect fod ardaloedd eraill hefyd wedi derbyn niferoedd tebyg o geisiadau, a pe bai hynny'n parhau, hwyrach y byddai Llywodraeth Cymru yn estyn y cynnig ymhellach.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y nifer isel o geisiadau a gofynnodd yr Arweinydd a fyddai'n bosibl anfon llythyr yn uniongyrchol at y rheiny sy'n gymwys i roi gwybod iddyn nhw am y cynllun peilot. Cytunodd y swyddog efallai byddai modd i'r Cyngor dargedu'r unigolion sy'n gymwys, gan esbonio bod un awdurdod wedi ysgrifennu at bawb a gyflwynodd cais am le mewn ysgol ym Medi 2017.

Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol ei bod hi'n bwysig pennu'r rheswm am gynlleied i geisiadau, gan awgrymu bod rhai teuluoedd, o bosib, wedi talu am y flwyddyn sydd i ddod yn barod, ac efallai'u bod nhw'n ofnus am y cynllun, ac yntau'n gynllun peilot.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd pryd byddai'r Awdurdodau Lleol yn cael gwybod a fyddai modd estyn y cynnig. Dywedwyd y byddai hynny, o bosib, tuag adeg gwyliau hanner tymor ym mis Hydref.

PENDERFYNODD yr Aelodau:

a) Nodi cynnwys yr adroddiad

D.S - Yn dilyn yr eitem, cyrhaeddodd Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd y Cyngor, i gadeirio gweddill y cyfarfod.

Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif: Cyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer Band B

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes, adroddiad i'r Cabinet a oedd yn nodi Rhaglen Amlinellol Strategol (drafft) –

Band B – y Cyngor ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain}, i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Gorffennaf 2017.

Ar ôl cais llwyddiannus am gyllid gwerth £160miliwn o dan Fand A Rhaglen 21^{ain} Ganrif, esboniodd y swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau Band B, a fyddai'n rhedeg o 2019-2024 ac yn cynnwys £1.1biliwn o gyllid cyfalaf a refeniw.

Cyfeiriwyd at adran 4.9 yn yr adroddiad lle roedd rhestr arfaethedig o gynlluniau Band B i'w cynnal yn 2019-2024. Esboniwyd bod y Rhaglen Amlinellol Strategol yn cyflwyno cais am gwmpas ariannu o £160miliwn a fyddai'n cael ei asesu gan Lywodraeth Cymru yn erbyn y cynigion a gyflwynodd y 21 o gynghorau eraill a'r meini prawf ariannu perthnasol.

Esboniodd y swyddog bod y rhaglen yn barhad o raglen fuddsoddi strategol uchelgeisiol i godi safonau o gyflawniad addysgol yn Rhondda Cynon Taf.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes yn fodlon ar yr adroddiad, gan ddweud ei bod hi'n rhaglen uchelgeisiol ac yn cyd-fynd â rhaglen y Cyngor ar gyfer moderneiddio ysgolion. Dywedodd yr Aelod ei bod hi'n bwysig i beidio ag enwi prosiectau ysgol posibl ar hyn o bryd, i beidio â chodi gobeithion.

Canmolodd y Dirprwy Arweinydd y gwaith gan swyddogion sy'n gweithio ar gynlluniau Ysgolion yr 21^{ain}, gan ddefnyddio Ysgol Aberdâr fel enghraifft o'r deilliannau llwyddiannus.

Gofynnodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant a fyddai cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn i siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn cyd-fynd â rhaglenni ysgolion. Dywedodd y swyddog fod y Rhaglen Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yn clymu'r prosiectau â'i gilydd a bod cynlluniau yn yr arfaeth i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

PENDERFYNWYD:

- a) Trafod yr wybodaeth yn yr adroddiad.
- b) Rhoi awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg i gyflwyno'r Rhaglen Amlinellol Strategol ofynnol erbyn 31 Gorffennaf 2017

21. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF: ENWI'R YSGOLION NEWYDD

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad i'r Aelodau a oedd yn cynnwys argymhellion corff/cyrff llywodraethu dros dro yr ysgolion mewn perthynas â dewis enwau eu hysgolion.

Cyfeiriwyd ar adran 4 yn yr adroddiad lle roedd cynigion ar gyfer 2 ysgol 'pob oed' 3-16 oed yn Nhonypandy a'r Porth a'r ysgol 3-19 oed 'pob oed' yn Nhonyrefail ac Ysgol Gyfun y Cymer yn cael eu nodi.

Dywedodd y swyddog fod Ysgol 3-16 oed Tonypandy wedi cynnig yr enw 'Ysgol Nant-gwyn', ar ôl ymgynghori helaeth. Tarddiad yr enw yw'r hen lofa a oedd yn sefyll ar safle'r ysgol; mae'r afon sy'n rhedeg yn agos i'r safle hefyd yn dwyn yr un enw.

Cymeradwyodd Ysgol 3-16 oed y Porth yr enw 'Ysgol Gymuned y Porth' yn dilyn ymatebion oddi wrth y rhieni.

Cynigiodd Ysgol 3-19 oed Tonyrefail yr argymhelliad unfrydol o 'Ysgol Gymuned Tonyrefail'.

Dywedodd y swyddog fod Ysgol Gyfun Y Cymer hefyd wedi bod yn ymgynghori - hithau'r unig Ysgol Gyfun Cyfrwng Cymraeg i wasanaethu RhCT - ac mae hi wedi cynnig yr enw 'Ysgol Gyfun Cwm Rhondda'.

Roedd hi'n dda gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes i gael nodi bod y gwaith ar yr ysgolion newydd yn mynd rhagddo'n dda, gan gadarnhau byddai modd dechrau ar y brandio yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet. Ychwanegodd yr Aelod fod yr enwau'n cynrychioli'u hardaloedd, er nad oedd yr enwau'n unffurf.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod yn enwau'n berthnasol ond mai'r addysg sy'n cael ei darparu sy'n bwysicach.

PENDERFYNWYD:

- a) Cymeradwyo'r enwau sydd wedi'u cynnig gan y cyrff llywodraethu dros dro ar gyfer yr ysgolion 3-16 a 3-19 'pob oed' yn Nhonypandy, Y Porth, a Thonyrefail mewn perthynas â'u hysgolion newydd, sydd i'w hagor ym Medi 2018.
- b) Cymeradwyo'r cais oddi wrth gorff llywodraethu Ysgol Gyfun y Cymer i ailenwi'r ysgol i fod 'Ysgol Gyfun Cwm Rhondda, gan weithredu o'r 1^{af} Medi 2017.

22. GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL YSTAD DDIWYDIANNOL TREFFOREST A PHARC NANTGARW

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio, adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu Gorchymyn Datblygu Lleol Ystad Ddiwydiannol Trefforest a Pharc Nantgarw.

Esboniwyd bod ffin y Gorchymyn yn cynnwys Ystad Ddiwydiannol Trefforest a Pharc Nantgarw ("Yr Ystad") ynghyd â rhai mannau ychwanegol yn y cyffiniau, gan gynnwys Parc Busnes Glan-bad i fanteisio ar y Gorchymyn Datblygu Lleol i'r eithaf.

Soniwyd i ymgynghoriad statudol gael ei gynnal ar y fersiwn drafft o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, gan gynnwys ymgynghori â pherchnogion a thenantiaid o fewn ffiniau'r Gorchymyn ac ymgynghori â phartïon eraill sydd â buddiant.

Esboniodd y swyddog fod y Gorchymyn arfaethedig i'w hystyried o fudd i gyflawniad Ystad Ddiwydiannol Trefforest a Pharc Nantgarw, a thrwy hynny, datblygiad yr economi o fewn y Fwrdeistref Sirol a'r Rhanbarth Dinesig ehangach. Cafodd ei baratoi er mwyn manteisio ar y buddiannau, yn ogystal â chymryd i ystyriaeth cyfyngiadau'r ardal leol.

Cafodd Aelodau wybod fod Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau nad oedden nhw'n dymuno gwneud cyfarwyddyd sy'n gofyn am gyflwyno'r Gorchymyn iddyn nhw ar gyfer ei gymeradwyo, ac felly mae hawl gan y Cyngor weithredu'r gorchymyn os dyna'i ddymuniaid.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai fod y lleoliad yn hollbwysig a byddai iddo botensial enfawr i ddwyn buddion ar gyfer y Rhanbarth Dinas ehangach. Ychwanegodd yr Aelod mai dyma fyddai'r Gorchymyn cyntaf i gynnwys ardal ddiwydiannol yng Nghymru ac y byddai'n arwain y ffordd ar gyfer awdurdodau eraill.

Yn dilyn rhagor o drafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Mabwysiadu'r Gorchymyn Datblygu Lleol ddrafft ar gyfer Ystad Ddiwydiannol Trefforest a Pharc Nantgarw.

23. GWAHARDD AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

- a) Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf, sef gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth).

24. DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyllid Gweithrediadol ddatganiad sefyllfa ar ddyledion nad oes modd eu casglu, ac sy'n pennu'r gofyniad i ddileu symiau penodol yn unol â meini prawf adolygu llym.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Cytuno i ddileu'r cyfrifon sydd wedi'u nodi yn yr atodlen sydd wedi'i hatodi i'r Ddarpariaeth o Ddyledion sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:30pm

Y Cynghorydd A. Morgan

Cadeirydd

The Resilient Families Programme – Delivering Integrated Family Support and Early Intervention and Prevention Services in RCT

Ann Batley – Service Director Children’s Services
Zoe Lancelott – Head of Engagement and Participation

Cabinet
6th July 2017



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTAETH GADARN | DYFODOL SICR

Resilient Families Programme

- brings together a range of strategic work streams and priorities to provide a single focus for all partners to engage with and commit to the delivery of family-focused early intervention support services that make a difference to families in RCT.

Integrated Family Support Framework


- organises the operational delivery of support services to families and identifies where different service provision fits within a continuum of family support.

Resilient Families Service


- will replace the current Team Around the Family (TAF) delivery model with a new and improved model that will enable us to respond to the needs of families swiftly and effectively.




Early Intervention and Prevention




Team Around the Family



Resilient Families Service



Integrated Family Support Framework



Case Study

- Family of 5 living mortgaged property in Pontypridd
- Both parents are employed full time
- Both parents have chronic illnesses which require daily management
- All three children (12yrs male; 8yrs female; 6yrs female) have a variety of complex needs that include physical, psychological and neuro-developmental conditions
- There is no readily available support from family members and support networks are limited
- The family are in contact with 41 professionals who are currently working with individual family members (39 require referral thresholds to be met and only 2 work with the family as a unit)
- Under the current arrangements, this family is **not** eligible for TAF



EDUCATION

HEALTH

SUPPORT SERVICES

Diactic
Developmental
Psychotherapy C2

Theraplay
C3

Talk Adoption
C1

Family Therapy
ALL

Holiday Funtime
Scheme C2

Short break
respite C2

Eye 2 Eye
Counselling C1

ELSA (Emotional
Literacy Support)
C2

YEPS Youth
Worker C1

Disabled
Children's Team
C2

Post adoption
support ALL

DEWIS (direct
payments) C2

ELSA (Emotional
Literacy Support)
C1

Sensory
Processing
Activity C1

Individual
Education Plan
C1

Educational
Psychologist
C1

Educational
Psychologist
C3

Statement
of SEN C2

ELSA (Emotional
Literacy Support)
C3

Individual
Behaviour Plan
C2

SEN
Administration
Service C2

Educational
Psychologist
C2

Learning
Support / 1:1
18 hrs C2

Behaviour
Support C2

Individual
Education Plan
C3

Neuro
developmental
Service C1

Dietician
C1

Geneticist C2

CAMHS
(medic) C1

Paediatrician
C3

CAMHS
(consultant) C2

Physiotherapy
C2

Podiatry
C1

Occupational
Therapy C1

CAMHS
(groupwork) C1

Ophthalmology
C2

Occupational
Therapy C2

Paediatrician
C2

CAMHS
(specialist
nurse) C1

Optician
C2 C3

Physiotherapy
C1

Speech and
Language C2

Geneticist
C3

Stoma Clinic D

Lung Clinic
D

Rheumatoid
Clinic D

Physiotherapy D

Optician
M

Lymphoedema
Clinic M

Full time
employment M

Secondary
School
C1

Primary School
C2 & C3

Full time
employment D

Maxillofacial
Surgery D

Dentist
ALL



Family

- Practical support to keep home environment safe
- Help / advocacy to streamline appointments
- Help to build a network of support
- Have a plan in place to deal with emergencies as they arise



- Single point of contact to act as advocate and give day to day support
- Family resilience assessment that identifies strengths and clear goals
- Someone to manage the professionals
- Specialist advice for impact on family of the children's additional needs

Resilient
Families Service

Family



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

- Professional planning and interventions include siblings
- A single bespoke plan that has achievable goals
- Contact with services is from a family perspective
- Quick response - delays as a result of referral processes removed


Integrated Family
Support Framework

Resilient
Families Service

Family



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR



- Interventions are family accessible (eligibility criteria does not exclude family members)
- Help and support can be accessed easily from community venues
- Public services are planned and delivered together through formal mechanisms



Timescales

	Start date	Completion date
Phase 1 - Establish core delivery of the Early Intervention and Intensive Intervention aspects of the Integrated Family Support Framework		
Re-organise existing key provision to establish the Resilient Families Service to deliver early intervention and intensive intervention services within the Framework and the revised TAF model	April 2017	Nov 2017
Phase 2 – Complete the implementation of the full Integrated Family Support Framework		
Realign wider Council services and other commissioned services to ensure that universal plus and remedial intervention services effectively link to the Resilient Families Service to provide a continuum of support	Oct 2017	March 2018
Phase 3 – Complete the implementation of the wider Resilient Families Programme		
Inclusion of external Council partners within the Programme	April 2018	Dec 2018



Recommendations of the Report

It is recommended that the Cabinet:

- 2.1 Consider the findings of the Team Around the Family (TAF) Review alongside the findings of the Vulnerability Profiling and Children's Services Project as set out in sections 6 and 7 of the report.
- 2.2 Agree to the development of a Resilient Families Service in consultation with key partners to deliver an improved Team Around the Family (TAF) model that enables us to respond to the needs of families swiftly and effectively.
- 2.3 Receive a further report on the options considered and recommended model of delivery for the Resilient Families Service in September 2017.
- 2.4 Agree to the Resilient Families Programme being the prevailing arrangement that shapes how national policy related to supporting families is implemented in RCT.

